BWYD Y MÔR

Carol Owen

Mae'r rhan fwyaf ohonom yn hoffi ymweld â'r traeth yn awr ac yn y man, yn enwedig yn yr haf.

Rydym yn ystyried traethau fel llefydd i dorheulu, i chwarae pêl-droed neu griced, neu i fynd am dro. Ond, i nifer o blanhigion ac anifeiliaid, dyma eu cartref, y lle maent yn byw ac yn bod ynddo.

Er hyn, mae'n anodd credu bod unrhyw beth yn digwydd wrth eistedd ar draeth prysur yng nghanol yr haf. Mae'r gwymon yn gorwedd yn llipa, does dim yn symud yn y pyllau dŵr, a'r unig beth o ddiddordeb i'r adar yw hufen iâ Mamgu.

Ond edrychwch eto, yn fwy manwl. Mae'n rhaid bod y creaduriaid hyn yn byw ar rywbeth, ond ar beth? Yr ateb, wrth gwrs, yw **ar ei gilydd.**

Edrychwch ar y we fwyd isod.



Defnyddiwch yr wybodaeth i lunio 3 cadwyn fwyd wahanol.

Er enghraifft:

Gwymon	→	**Llygad maharen**	→	**Pioden fôr**
	→		→	
	→		→	
	→		→	

Edrychwch eto ar y we fwyd.

Ble byddech chi yn gosod pobl ac â beth y gallwch eu cysylltu?
Lluniwch gadwyn fwyd sydd yn cynnwys pobl.

Yn awr, edrychwch ar y wybodaeth ganlynol am y diwydiant pysgota, a cheisiwch ateb y cwestiynau.

1930	1940	1950	1960	1970	1980	1990
Cychod bach yn cael eu defnyddio. Pysgotwyr yn dilyn morfilod ac adar i ddod o hyd i fwy o bysgod	Ail Ryfel Byd	Llongau â thechnoleg "sonar" i leoli heigiau pysgod	Llongau ffatri mawr gyda rhewgelloedd	Rhwydi ag offer sugno ar y pen	Niferoedd rhai pysgod wedi gostwng o dan y lefel biolegol diogel	Pysgod iau a llai o faint yn cael eu dal a'u gwerthu
↓	↓	↓	↓	↓	↓	↓



Cwestiynau

1 Pam na chafodd cymaint o bysgod eu dal rhwng 1939 a 1945?
2 Pam fod cymaint mwy wedi cael eu dal yn ystod y 60au a'r 70au?
3 Pam fod nifer y pysgod oedd yn cael eu dal wedi gostwng erbyn 1980?
4 Beth yw ystyr o dan lefel biolegol diogel?

Atodiad 2003

Erbyn heddiw, mae llawer o bryder am brinder pysgod yn y moroedd pysgota traddodiadol ac mae gwyddonwyr yn ofni y bydd rhai rhywogaethau cyfarwydd wedi diflannu'n llwyr cyn hir.

Beth allwn ni ei wneud i wella'r sefyllfa a sefydlu strategaeth ar gyfer **pysgota cynaliadwy?**
Nid mater hawdd yw dod o hyd i ateb cytbwys, teg.

Dyma rai sylwadau amrywiol i chi eu hystyried:

Rhaid rhwystro pysgotwyr rhag dal rhai mathau o bysgod o gwbl mewn rhai mannau.
Mae pysgod yn dda i ni a dylem fod yn bwyta mwy fel bwyd iach.
Dylai pris pysgod godi fel na fyddai ond ychydig o bobl yn medru fforddio eu prynu.
Byddai miloedd o bysgotwyr a'u teuluoedd yn dioddef oherwydd colli eu bywoliaeth pe bai pysgota yn cael ei atal.
Dylem ffermio mwy o bysgod i'w gwerthu.
Byddai atal pysgota yn dinistrio ffordd werthfawr draddodiadol o fyw yng ngwledydd Gogledd Ewrop megis yr Alban a Norwy.
Rhaid edrych ar ddulliau pysgota a datblygu rhai sy'n amharu llai ar fywyd y môr.

Dyna i chi ddadl!
Pwy sydd yn iawn?
Oes yna atebion eraill?

Gwaith trafod
Mewn grŵpiau trafodwch y syniadau uchod a cheisiwch benderfynu beth fyddai'r ffordd orau o gynnal y pysgod a'r pysgotwyr. Fedrwch chi gynnig unrhyw syniadau gwreiddiol eich hunain? (Nid mater i wyddonwyr a gwleidyddion yn unig yw hwn. Mae adnoddau fel bwyd y môr yn bwysig i bawb, a rhaid datblygu dulliau cynaliadwy o'u datblygu.)